

**Cofnodion Cyfarfod Arbennig o Gyngor Cymuned Trawsgoed a gynhelir yn
Neuadd Lisburne, Llanafan ar nos Fawrth 19eg Ebrill, 2016 am 7.00 y.h.**

Presennol:**Cyng. C. Lloyd-Morgan (Cadeirydd)****Cyng. H.M. Evans****Cyng. E. Lewis****Cyng. Sh. Edwards****Cyng. L.L. Owen****Cyng. R. Jones****Ymddiheuriadau****Cyng. T.A.G. Davies, Cyng. A. Evans, Cyng. J. George, Cyng. B. Jenkins.****Claire Griffiths, Asiant Tir, Dŵr Cymru;****Sonny Robinson, Swyddog Rheoli Datblygu;****Kevin James, Rheolwr Prosiect, Morgan Sindall;****Daniel Purchase, Rheolwr Prosiect Cynorthwyol, Dŵr Cymru;****Andrea Law, Rheolwr Cyfathrebu Dŵr Cymru;****Shaun O'Leary, Rheolwr Rhaglen Gyfalaf, Dŵr Cymru.**

Agorwyd y Cyfarfod Arbennig o'r Gyngor Cymuned gan y Cynghorydd Ceridwen Lloyd-Morgan, y Cadeirydd. Trefnwyd y cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Ddŵr Cymru er mwyn ceisio datrys pryderon yn dilyn nifer o ohebiaeth rhwng Dŵr Cymru a'r Gyngor Cymuned mewn ymateb i bryderon i gysylltu gyda'r system garthffosiaeth newydd yn Llanafan. Dangoswyd gwerthfawrogiad gan y Cadeirydd i gynrychiolwyr Dŵr Cymru am fynychu'r cyfarfod a hefyd am drefnu sesiynau galw mewn ar gyfer trigolion a pherchnogion tai yn Neuadd Lisburne y prynhawn hwnnw rhwng 3.00 y.p. a 7.00 y.h.

Trefnwyd y cyfarfod yn dilyn nifer o bryderon a rannwyd gyda'r Cynghorwyr Cymuned gan drigolion a pherchnogion tai yn Llanafan yn ymwneud â'r gost uchel a roddwyd arnynt i gysylltu gyda'r System Garthffosiaeth.

Nododd Cyng. L. Owen ei werthfawrogiad i staff Cwmni Morgan Sindall a Dŵr Cymru a leoli'r ar y safle yn Llanafan a'r cwртеisi ac ystyriaeth a ddangoswyd gan y gweithwyr i drigolion lleol oherwydd fod y ffordd ar gau drwy Lanafan i gyflawni'r gwaith.

Aeth y Cyng. Owen ymlaen i nodi bod y pryderon a godwyd yn ymwneud â chost uchel y cysylltiad ac na fyddai ambell i unigolyn yn medru fforddio'r gost dan sylw ac na dderbyniwyd digon o wybodaeth wrth Dwr Cymru a'r diffyg tryloywder wrth y Cwmni.

Cyfeiriodd Cyng. Owen at fap o'r ardal a dderbyniwyd gan Ddŵr Cymru a Chwmni Morgan Suddell a oedd yn cynnwys manylion o'r adeiladau oedd yn llygru'r amgylchedd (adeiladau dyletswydd) a oedd angen eu cysylltu gyda'r system garthffosiaeth a hefyd adeiladau eraill oedd wedi nodi fel di-ddyletswydd ond oedd yn rhydd i gysylltu pe dymument wneud hynny. Adroddodd Cyng. Owen at ddau dŷ oedd trigolion lleol yn ymwybodol wedi nodi fel di-ddyletswydd ond y dylent gael eu nodi fel rhai 'dyletswydd'. Trafodwyd sut y bu i'r adeiladau gael ei nodi fel rhai dyletswydd a di-ddyletswydd.

Adroddodd Daniel Purchase fod yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol wedi ymgymryd ag arolwg o adeiladau i sefydlu a ddylent fod yn ddyletswydd neu di-ddyletswydd ond nid oedd gwybodaeth ar gael sut y gwnaed yr arolwg hwn. Trafodwyd sut y byddai'r Cyngor Cymuned yn medru trefnu i newid dosbarthiad o'r ddau eiddo ond roedd yn aneglur pwy y dylid cysylltu gyda. Penderfynwyd y byddai Andrea Law o Ddŵr Cymru yn gwneud ymholiadau ac yn trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol i Glerc y Cyngor Cymuned.

Gosodir y system garthffosiaeth newydd yn Llanafan o ganlyniad i Benderfyniad gan Awdurdod Naturiol Cymru (NRW), yn dilyn cais am garthffosiaeth newydd o dan Ddeddf S101A y Diwydiant Dŵr 1991

Mae gan Ddŵr Cymru rwymedigaeth gyfreithiol o dan S101A i ddarparu system garthffosiaeth ddi-dâl ond nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i roddi draeniau ochrol mewn lle, sydd y drain o'r system garthffosiaeth gyhoeddus i'r siambr terfyn sydd wedi lleoli ar ffin i eiddo preifat. Mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol yn dod i rym pan mae cwsmer yn gwneud cais am ddrain ochrol a thalu amdano o dan S101B.

Fe wnaeth Andrea Law a Shaun O'Leary nodi ar y cyd fod penderfyniad wedi gwneud yn ddiweddar i roddi consesiwn drwy ostwng y gost derfynol i berchnogion drwy Dŵr Cymru ymgymryd at y gost o roddi'r draeniau ochrol mewn lle gan adael y gost o gysylltu â rhoddi'r seilwaith mewn lle i'r perchnogion tai.

Bydd hwn yn swm sylweddol o is i berchnogion tai i'r hyn a ofynnwyd amdano yn wreiddiol a dangosodd aelodau'r Cyngor Cymuned eu gwerthfawrogiad i'r trefniant newydd yma. Unwaith bydd y draen wedi ei gosod a'r carthffosydd yn weithredol, bydd perchnogion tai yn medru gwneud cais i Ddŵr Cymru i cysylltu ar gost o £183 a hefyd tâl seilwaith o £357.

Deallir bod y costau uchod ond yn cyfeirio at eiddo dyletswydd ond gwnaed ymholiad gan y Cyngor Cymuned beth fyddai'r sefyllfa pe byddai perchennog eiddo di-ddyletswydd am ymuno gyda'r system, a fyddai angen iddynt dalu swm sylweddol fwy nag eiddo dyletswydd fel y nodwyd mewn gohebiaethau cychwynnol. Ymatebodd Shaun O'Leary pe byddai eiddo di-ddyletswydd am wneud cais i ymuno ar yr adeg yma fe byddent yn teilyngu cost ostyngedig fel y nodwyd uchod, ond byddai'r gostyngiad ond yn bodoli pe byddent am ymuno gyda'r system yn fuan. Dosberthir llythyr i holl berchnogion eiddo di-ddyletswydd cyn diwedd yr wythnos yn nodi'r wybodaeth hyn. Cyfeiriwyd y bu oedi yn gwneud y penderfyniad hwn gan fod yr Adran Gyfreithiol am sicrhau rhai manylion yn gyntaf.

Cyn y cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned trefnodd Dŵr Cymru sesiynau galw mewn rhwng 3.00 y.p. a 7.00 y.h. yn Neuadd Lisburn gan wahodd trigolion lleol a pherchnogion tai i fynychu. Adroddwyd fod ymateb i'r sesiynau hyn wedi bod yn bositif iawn.

Mewn ymholiad gan y Cynghorydd R. Jones a oedd yn orfodol i ymuno gyda'r system ymatebodd Shaun O'Leary nad oedd yn orfodol ar hyn o bryd i ymuno ond y byddai'n rhwystredig i bawb i wario swm sylweddol ar system na fyddai neb yn ymuno â hi. Dyna pam fod Dŵr Cymru wedi cytuno i ostwng cost cysylltu. Aeth ymlaen i nodi pe byddai tai ddim yn cysylltu yn yr amser hwn ac y byddent yn y dyfodol i'w gweld yn llygru y byddant yn cael rhybudd statudol i gysylltu ac erbyn hynny bydd y gost ymuno wedi codi'n sylweddol gan fod cynnig Dŵr Cymru i hepgor cysylltiad draen ochrol ond am gyfnod cyfyngedig ac nid am gyfnod amhenodol.

Trafodwyd pe byddai adeiladau newydd yn y Pentref a sut y bydd y rhain yn cysylltu gyda'r system? Nodwyd y byddai'r system garthffosiaeth ar gyfer adeiladau newydd wedi eu cynnwys o fewn Cynlluniau Rheoliadau Adeiladau.

Trafodwyd hefyd a medrir rhoi siambr llinell derbyn ar dir preifat ond ymatebodd Shaun O'Leary nad oedd hyn yn bosibl a'i bod yn angenrheidiol i'w lleoli ar ffordd gyhoeddus gan pe byddent wedi lleoli ar dir preifat fe all fod problem i gynrychiolwyr Dŵr Cymru gael mynediad pe byddent neu gontractwr am archwilio'r siambr. O'r herwydd hyn nodwyd y byddai rhesi o dyllau archwilio ar ochr y ffordd yn Llanafan.

Fe ddaeth y cyfarfod i drafod System Carthffosiaeth yn Llanafan i ben am 7.50 y.h. a diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am ymateb i bryderon y Cyngor Cymuned gan nodi pa mor bwysig yw i bawb weithio gyda'u gilydd i ddatrys pryderon fel y maent yn codi.

Yn dilyn y cyfarfod uchod aed ymlaen i drafod y canlynol yn y Cyfarfod Arbennig

Ymgynghori ar amryw o newidiadau arfaethedig i'r terfynau cyflymder ar Ffyrrdd Sirol yng Ngheredigion

Trafodwyd llythyr a dderbyniwyd wrth Gyngor Sir Ceredigion yn ymwneud ag Ymgynghoriad ar yr uchod ble y bwriedir doddi uchafswm cyflymder o 20 m.y.a. drwy bentref Llanfihangel-y-Creuddyn.

Yn dilyn trafodaeth o'r awgrymiadau sef dechrau'r rhwystrau cyflymder yn y lleoliadau canlynol:

Ychydig i'r Gorllewin o'r Fynwent
Wrth Ymyl Tŷ'r Ysgol
I'r Dwyrain o Tymawr
Wrth ymyl Dolawel
I'r De o Olau Ceunant
I'r Gorllewin o Tanybryn

Yn dilyn trafodaeth nodwyd fod y Cyngor Bro yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi'r bwriad i roddi cyfyngiadau cyflymder yn Llanfihangel-y-Creuddyn ond gyda'r awgrymiadau canlynol i ambell i leoliad.

Wrth ymyl Tŷ'r Ysgol – awgrymu ymestyn y cyfyngiadau i gornel uchaf y cae uwchben Y Grange;

Wrth ymyl Dolau Ceunant – ymestyn y cyfyngiadau ymhellach i lan y ffordd gan y teimlir fod awgrym y Cyngor Sir yn rhy agos i fynediad yr ysgol.

I'r Gorllewin o Tanybryn – nodir fod y darn ble nodir y cyfyngiad yn ffordd ddi-ddosbarth ac felly y dylid nodi dechrau'r cyfyngiad ochr isaf i Gaeglas.

Coed ar y B4340 Llechwedd Dyrys

Cafwyd trafodaeth yn dilyn cyfarfod diwethaf o'r Cyngor Bro ble y disgwylir i'r perchennog tir ymgymryd â gwaith y diwrnod canlynol i'r cyfarfod i sicrhau diogelwch ar safle Llechwedd Dyrys. Derbyniwyd e-bost gan Rob Duke o'r Cyngor Sir yn cadarnhau fod y perchennog tir wedi cydymffurfio gyda gofynion y Rhybudd Statudol i wneud y safle yn ddiogel o ran y coed peryglus gan nodi hefyd bod Cyngor Sir Ceredigion yn hapus gyda natur y gwaith a gwblheir ac na fydd y Cyngor Sir yn ymgymryd ag unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd o ran y coed yma.

Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Cyngorwyr Bro oedd yn bresennol nad oedd y gwaith a waned yn ddigonol a bod rhai o'r coed peryglus a adnabyddir yn flaenorol gan Rob Duke fel rhai peryglus heb gael unrhyw waith wedi gwneud arnynt.

Cytunwyd mai'r ffordd ymlaen yw i'r Clerc gysylltu gyda Kevin Kirkland, Rheolwr Rob Duke er mwyn trefnu cyfarfod safle gydag ef i gael egluro pryderon Cyngor Bro Trawsgoed am y math a safon o waith a wnaed gan y perchennog tir a bod y Cyngor Bro yn parhau i fod yn bryderus am y sefyllfa o ran diogelwch y cyhoedd ar y safle yma. Copi o'r ohebiaeth i fynd at Brif Weithredwraig Ceredigion hefyd.

Trafwyd hefyd y posibilrwydd o gael arbenigwr coed i wneud asesiad o'r coed yn Llechwedd Dyrys a hefyd cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Bro Llanfarian gan ddatgan fod Cyngor Bro Trawsgoed yn bryderus am natur beryglus y coed yn Llechwedd Dyrys o ystyried fod y safle o fewn Cyngor Bro Llanfarian.